

Diogelu Grwpiau Bregus

Mae'r enwadau wedi cyhoeddi dogfen newydd sy'n rhoi canllawiau i'r eglwysi ynghylch diogelu grwpiau bregus. Mae hynny'n golygu bod angen i'r eglwysi roi sylw arbennig i'r ffordd y maen nhw'n gweithredu mewn cyswllt â phlant a phobl ifanc ac oedolion.

Mae Henaduriaeth Arfon wedi trefnu cyfarfod i egluro'r canllawiau newydd hyn, ac fe'i cynhelir yng nghapel Berea Newydd, Bangor am 7.00 o'r gloch, nos Iau, Mehefin 5.

Bydd Mrs Julie Edwards, sef Swyddog Hyfforddiant y Panel Diogelwch Cydenwadol yn cyflwyno'r canllawiau ac yn arwain y darfodaeth.

Gofynnir i bob eglwys anfon cynrychiolwyr i'r cyfarfod hwn.

Y mis nesaf - Deiniolen

Mai 25

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg W R Williams

Mehefin 1

9.30 a.m. - Y Gweinidog
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mehefin 8

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr T Alun Williams

Mehefin 15

10.00 a.m. - **Oedfa Deulu**
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Cwpan Efe

**Pêl droed 5 yr ochr
Plant Blwyddyn 3-6
Nos Wener, Mehefin 27
6.00-9.00 o'r gloch
Cae Ysgol Gynradd Llanrug**

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Mehefin 1: Gwasanethir am 9.30 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Mehefin 1: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mr Euron Hughes ac am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Geraint Roberts. Ni fydd Ysgol Sul oherwydd y gwyliau.

REHOBOTH

Dydd Sul, Mehefin 1: Ni fydd oedfa.

Y mis nesaf - Llanberis

Mai 25

10.30 a.m. - **Oedfa Deulu**
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mehefin 1

10.00 a.m. - Mr Euron Hughes
10.15 a.m. - DIM YSGOL SUL
5.00 p.m. - Y Parchg Geraint Roberts

Mehefin 8

10.00 a.m. - Y Gweinidog
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - **Oedfa MOLI**

Mehefin 15

10.00 a.m. - Y Parchg Hugh Pritchard
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Hugh Pritchard



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 593- Dydd Sul, 25 Mai, 2014

Yng nghanol cae

'Pam bod y fan wen acw yng nghanol y cae?' meddwn wrth nesáu at y gylchfan rhwng Bethel a Chaernarfon y dydd o'r blaen. Fedrwn i yn fy myw â gweld pam bod y fan wedi ei pharcio yng nghanol y cae, heb ddim na neb o'i chwmpas. Ond wedi croesi'r gylchfan a dod yn nes ati, daeth pethau'n eglur. Ar ochr y fan roedd arwydd ac arno'r geiriau, 'Os ydych eisiau llogi'r fan hon, ffoniwch ...'. Wnes i ddim dal sylw o'r rhif ffôn, ond mae'n debyg y byddwn wedi gwneud mwy o ymdrech i wneud hynny pe byddwn angen llogi fan ar y pryd. Ond un peth y gwnes i sylwi arno oedd bod gosod y fan yng nghanol y cael wedi bod yn dacteg effeithiol. Mae'n debyg nad fi oedd yr unig un i sylwi arni a meddwl pam ei bod yno. Ac mae'n ddigon posibl bod ambell un a'i gwelodd eisiau llogi fan o'r fath, a bod perchennog y fan wedi cael rhywfaint o fusnes.

Wn i ddim a dorwyd rheolau cynllunio ai peidio wrth osod y fan yn y cae. Wedi'r cwbl, chaiff pobl ddim gosod pob math o arwyddion o gwmpas y lle yn ôl eu mympwy. Ond roedd parcio'r fan yn y cae yn ddigon effeithiol yn yr achos hwn gan ei bod wedi tynnu sylw pobl at y ffaith bod modd ei llogi.

Mae gennym fel eglwysi rywbeth gwell na fan wen i'w gynnig. Mae gennym Waredwr ac Arglwydd bywyd yn Iesu Grist. Nid cynnig i bobl ei gael dros dro yr ydym ond estyn gwahoddiad i bobl ei gael am byth. Ac nid gwahodd pobl i'w gael trwy dalu amdano mewn

unrhyw ffordd a wnawn ond cyhoeddi bod y Gwaredwr hwn i'w gael yn rhad ac am ddim i bawb sy'n cydnabod eu hangen amdano.

Oes, mae gennym neges arbennig iawn am y person mwyaf a fu erioed. Mae'n neges sydd, o'i derbyn, yn gallu newid bywydau. Mewn gwirionedd, mae'n neges sydd wedi newid y byd cyn hyn, ac fe all newid y byd yr ydym ninnau'n byw ynddo heddiw. Ond y cwestiwn mawr i'w ofyn yw pa mor effeithiol yw ein hymdrechion ni i gyhoeddi'r neges. Fe allem osod arwydd mawr mewn cae i dynnu sylw ati, fel mae rhai eglwysi yn ei wneud wrth osod adnodau neu neges ar boster y tu allan i'r capel. Mewn rhyw ystyr, mae *Gronyn* yn gwneud rhywbeth tebyg bob wythnos gan na wyddon yn union pwy sy'n ei weld a'i ddarllen, un ai ar bapur neu ar sgrin cyfrifiadur. Ond beth bynnag yw gwerth y mae hwn o 'hysbysebu' neges yr Efengyl, ni allwn fodloni arno gan fod gwir efengyl a chyhoeddi Crist yn golygu dweud y newydd da amdano wrth bobl benodol. Nid cyhoeddi mewn gwagle, yn y gobaith y gall rhywun yn rhywle glywed ein neges, a wnawn ni. Mae angen cyhoeddi Crist wrth gyfeillion a chymdogion; mae angen rhannu'r newyddion da â phawb o'n cwmpas gan weddio y bydd y bobl sy'n clywed yn cael gras i greu'r hyn a gyhoeddir am yr Arglwydd Iesu Grist. Mae yna le i hau'r had heb fod gennym y syniad lleiaf ym mhle y bydd yn syrthio. Oes yn sicr. Ond rhaid anelu'r neges hefyd at bobl benodol.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul arall. Boed i Dduw fendithio ein haddoliad.

Bydd yr Ysgol, Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg W R Williams, Y Felinheli. Estynnwn goeso cynnes iddo unwaith eto.

Cynhelir Oedfa deulu yn Llanberis am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Dymunwn yn dda i bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Cymorth Cristnogol Mai 11–17

Diolch yn fawr iawn am bob cyfraniad a gafwyd tuag at gasgliadau Wythnos Cymorth Cristnogol.

Yn Neiniolen, cyfanswm y casgliadau oedd £950.00, sy'n cynnwys arian a godwyd yn Ysgol Gwaun Gynfi. Diolch yn fawr iawn i bawb ohonoch a fu'n casglu o ddrws i ddrws, ac unwaith eto eleni diolch yn arbennig i Neville a Jane Thorman Jones am drefnu'r cyfan.

Nid oedd yr arian i gyd wedi dod i law yn Llanberis mewn pryd ar gyfer Y Gronyn, ac felly fe gyhoeddwyd y swm a gasglwyd yr wythnos nesaf.

Ac fel y soniais yr wythnos ddiwethaf os oes rhywun yn Llanberis yn dymuno cyfrannu ond na chafodd amlen trwy'r drws, cysylltwch â'r Gweinidog er mwyn cael amlen. Ffoniwch 872390 ac mi drefnwyd i chi gael amlen er mwyn i chi allu cyfrannu erbyn diwedd yr wythnos nesaf.

Cwrs Plant yn y Bala

Cafodd y plant amser da yng Ngholeg y Bala dros y Sul diwethaf. Ac er mai criw llai nag arfer oedd yno'r tro hwn, fe gafwyd amser da a chyfle i'r plant ddysgu am y Ffydd trwy glwyed rhywfaint o hanes Moses.

Unwaith eto, diolch i Andrew Settatee am fynd yno gyda'r plant. Gobeithio nad oedd wedi blino gormod ar ôl penwythnos prysur a llawn arall.

Cwpan Efe

Gweler y dudalen gefn!

Pen-blwydd Hapus

Dymunwn Ben-blwydd Hapus i Mrs Annie Pritchard, 1 Ffordd Padarn, Llanberis a oedd yn 90 mlwydd oed ddoe. Mae'n hen arferiad ar dudalennau *Gronyn* i longyfarch ein haelodau sy'n dathlu'r 90, ond dyma'r unig dro y caf ddweud, 'Pen-blwydd Hapus yn 90 oed, Mam'.

CIC

Cynhaliwyd CIC yn Capel Coch echnos a diolch i Andrew a Dafydd am eu help a'u harweiniad. Bydd y cyfarfod nesaf nos Wener. Mehefin 13.

Efe a Trobwynt

Os cofiwch pan oeddech yn sefydlu Cynllun Efe, flynyddoedd yn ôl erbyn hyn, buom yn sôn am waith tebyg oedd yn cael ei wneud yn Llŷn ac Eifionydd dan nawdd mudiad o'r enw 'Trobwynt'. Mewn gwirionedd, fe gawsom gyngor a help gan y mudiad hwnnw wrth roi trefn ar bethau efo gwaith Efe, ac roedd Trobwynt yn batrwm i Efe o'r cychwyn.

Mae'r cysylltiad wedi para ers hynny, ac mae'r ddau fudiad wedi cydweithio llawer gan drefnu rhai gweithgareddau ar y cyd. Un peth amlwg sydd wedi hwylyso'r cydweithio yw'r ffaith bod gweithwyr y ddau fudiad yn perthyn i'w gilydd gan fod Rachel Settatee, sy'n gweithio i Trobwynt, yn chwaer yng nghyfraith i Andrew. Roedd ei gŵr, John, sef brawd Andrew, yn arfer gweithio i Trobwynt hefyd ond mae ef erbyn hyn yn gweithio i Undeb y Gair (Scripture Union).

Mae'r cydweithio yn mynd yn i fod yn fwy fyth dros y misoedd nesaf gan ein bod fel Ymddiriedolwyr Efe wedi dod i gytundeb ag Ymddiriedolwyr Trobwynt i 'fenthgy' Andrew i Trobwynt am ran o'r wythnos. Mae Rachel a John yn

mabwysiadu plentyn, ac mae Rachel yn cael amser o'i gwaith am rai misoedd. Dros y cyfnod absenoldeb mabwysiadu hwn bydd Andrew yn treulio hanner yr wythnos gyda Trobwynt yn gwneud rhan o waith Rachel, a'r hanner arall yma gyda ni yng Nghynllun Efe. Fel arfer, felly, bydd yn Llŷn ac Eifionydd o fore Mawrth hyd bnawn lau ac yma gyda ni weddill yr amser.

Dymunwn bob bendith iddo yn ei waith gyda Trobwynt, gan obeithio y bydd yn mwynhau'r gwaith ac yn cael budd o gydweithio gyda phobl wahanol i'r arfer. Ac edrychwn ninnau ymlaen at barhau i gydweithio ag ef yng ngwaith Efe. Mae'r trefniant dros dro hwn o fudd i'r ddau fudiad. Mae'r cysylltiad teuluol yn golygu bod Andrew yn gyfarwydd iawn â gwaith Trobwynt, a bydd Trobwynt felly yn cael help rhywun nad yw'n ddieithr iddo o gwbl gyda'r gwaith yn ystod cyfnod mabwysiadu Rachel. Bydd Cynllun Efe yn naturiol yn derbyn tâl gan Trobwynt am gael gwasanaeth Andrew, a bydd hynny'n help mawr i ni wrth i ni barhau â'n hymdrech i godi'r cyllid sydd ei angen i gynnal y swydd a'r gwaith.

Yn amlwg, bydd rhaid i ni sicrhau ein bod deg ag Andrew wrth iddo geisio cyflawni'r gwaith yn y ddwy ardal. Bydd angen gofalu nad ydym fel dau fudiad yn gofyn gormod ganddo dros y misoedd nesaf gan fod peryg i hynny ddigwydd bob tro y mae rhywun yn ceisio cyflawni dwy swydd, neu hanner dwy swydd.

Nid ydym yn gwybod am ba hyd y bydd y trefniant yn para gan ei fod yn dibynnu ar hyd cyfnod absenoldeb mabwysiadu Rachel. Fe all fod hyd at flwyddyn, ond fe all fod yn llai na hynny.

Cwpan Efe

Gweler y dudalen gefn!